



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
RHONDDA CYNON TAF  
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

C Hanagan  
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Llywodraethol a Chyfathrebu  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian  
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Julia Nicholls - Gwasanaethau Democrataidd (01443 424098)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod rhithwir arbennig o **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal ar **DYDD GWENER, 24AIN GORFFENNAF, 2020** am **3.00 PM**.

**AGENDA**

**Tudalennau**

**1. DATGANIAD O FUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG**

Derbyn cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, sy'n rhoi cyfle i'r Aelodau dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Gwasanaethau Mamolaeth a materion strategol eraill, a'u trafod ymhellach.

**3. MATERION BRYG**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion bryg yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Llywodraethol a Chyfathrebu**

**At: Pob Aelod o'r Cyngor**

